



Gwasanaeth Effeithiolrwydd a
Gwella Ysgolion Rhanbarthol Gogledd Cymru

Regional School Effectiveness &
Improvement Service for North Wales

Bwletin GwE

Grant Gwella Addysg – 2018-2019 ★NEWYDD★

Yn dilyn derbyn cadarnhad gan Lywodraeth Cymru, gallwn gadarnhau'r sefyllfa derfynol ynglŷn â'r Grant Gwella Addysg [GGA] ar gyfer 2018-2019. [Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion.

Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth [CPCP] ★NEWYDD★

Fe'n hysbyswyd yn ddiweddar y bydd y broses CPCP ar gyfer 2018/19 yn cael ei gweithredu gan y consortia. Cynhelir sesiynau briffio ar gyfer darpar ymgeiswyr yng Nglasdir (Llanrwst) ar 17/07/18 ac ar 18/07/18, gyda sesiynau ychwanegol yng Ngwesty Beaufort Park (Yr Wyddgrug) ar 10/09/18 ac yn Nhŷ Menai (Bangor) ar 11/09/18. Yn ogystal, mae gennych fynediad i sesiynau briffio'r 3 consortiwm arall ar draws Gymru. [Cliciwch yma](#) am ragor o wybodaeth.

Cynnig GwE ar G6

Fel y gwyddoch, mae Cynnig GwE, sy'n cynnwys holl fanylion yr hyfforddiant datblygiad proffesiynol mae GwE yn ei gynnig ar gyfer y flwyddyn nesaf, bellach yn fyw yn G6 [\[https://g6.gwegogledd.cymru\]](https://g6.gwegogledd.cymru).

Er mwyn cofrestru i fynychu'r hyfforddiant sydd wedi'i restru, bydd angen i chi gael cyfrif personol yn G6. Mae modd gwneud hynny drwy ddilyn y [ddolen hon](#) a chlicio ar y botwm 'Cofrestrwch Nawr'.

Hyfforddiant mis Medi:

DYDDIAD	HYFFORDDIANT	LLEOLIAD
11/09/2018	Arweinwyr ar gyfer y Dyfodol [Carfan 2]	Glasdir, Llanrwst
18/09/2018	Ysgolion sy'n Wybodus am Drawma	Swyddfa GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn
	Rhaglen Sefydli i Gymorthyddion Dysgu [Carfan A – Cyfrwng Cymraeg a Saesneg]	Glasdir, Llanrwst
24/09/2018	Saesneg Uwchradd – Gramadeg ar gyfer Ysgrifennu	Glasdir, Llanrwst
25/09/2018	Cwrs Datblygu Arweinyddiaeth Gwyddoniaeth Uwchradd	Venue Cymru, Llandudno
	Rhaglen Sefydli i Gymorthyddion Dysgu [Carfan B – Cyfrwng Cymraeg a Saesneg]	Gwesty'r Beaufort Park, Yr Wyddgrug

Cyfleoedd gyda GwE

Rheolwr Prosiectau yn Ymwneud â'r Rhaglen Trawsnewid ★NEWYDD★

CYFLE AM SECONDIAID AM 2 FLYNEDD [1 MEDI 2018 – 31 AWST 2020] NEU GYFLE AM GYTUNDEB DROS DRO AM DDWY FLYNEDD YN Y LLE CYNTAF – AMODAU A THELERAU GWAITH LLYWODRAWETH LEOL YN BERTHNASOL

Am sgwrs anffurfiol cysylltwch â Alwyn Jones, Cyfarwyddwr Cynorthwyol [Safonau] ar 0300 500 8087 neu e-bost at

alwynjones@gwegogledd.cymru

Gwahoddir ceisiadau trwy lythyr gan gynnwys CV erbyn 10:00 O'R GLOCH, DYDD IAU, 02 AWST 2018 at

anwengwilym@gwegogledd.cymru

Mae'r gallu i gyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer y swydd hon.

Swyddog Cyllid Cefnogol [Dros Dro] ★NEWYDD★

SWYDD LLAWN AMSER OND YSTYRIR CEISIADAU AM WNEUD Y SWYDD YN RHAN AMSER]

Am sgwrs anffurfiol cysylltwch â Sion Wyn Evans, Rheolwr Busnes GwE (Dros dro) ar 0300 500 8087 neu e-bostiwrch

sionwynevans@gwegogledd.cymru

Cliciwch yma am ragor o fanylion.

DYDDIAD CAU: 10:00 O'R GLOCH, DYDD IAU, 26 GORFFENNAF 2018

Mae'r gallu i gyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer y swydd hon.

Rheolwr Cyfathrebu a Rheoli Prosiectau

HYD AT 31/08/2019 – GYDA'R POSIBILRWYDD Y BYDD YN CAEL EI YMESTYN

Am sgwrs anffurfiol cysylltwch â Sion Wyn Evans, Rheolwr Busnes GwE (Dros dro) ar 0300 500 8087 neu e-bostiwrch

sionwynevans@gwegogledd.cymru

Cliciwch yma am ragor o fanylion.

DYDDIAD CAU: 10:00 O'R GLOCH, DYDD IAU, 19 GORFFENNAF 2018

Mae'r gallu i gyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer y swydd hon.

Polisiau AD Rhanbarthol Newydd ar gyfer Ysgolion

Mae polisiau a gweithdrefnau newydd a ddatblygwyd yn rhanbarthol wedi'u lansio y tymor hwn. Y rhain bellach yw'r polisiau model yr argymhellir i bob ysgol yng ngogledd Cymru eu mabwysiadu.

Mae'r polisiau newydd yn rhoi sylw i Ddisgyblaeth, Urddas yn y Gweithle a Chwynion, ac fe'u datblygwyd gan Rwydwaith AD Addysg y chwe Awdurdod mewn partneriaeth efo'r undebau llafur cydnabyddedig ar lefel ranbarthol.

Cliciwch yma am ragor o fanylion.

Cyfleoedd Hyfforddi Cynradd

Gweithdy i Ddyfnhau Gwybodaeth a Dealltwriaeth o Addysgeg y Cyfnod Sylfaen i Athrawon sy'n Newydd i'r Cyfnod Sylfaen ★NEWYDD★

Cliciwch yma am ragor o fanylion.

I gadarnhau lle ar y gweithdy uchod, a fyddwch cystal â llenwi'r [ffurflen hon](#), a'i hanfon at myradavies@gwegogledd.cymru erbyn Dydd Mercher, 19 Medi 2018.

Cyfleoedd Datblygu Proffesiynol

Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Ganol [RhDAG]

Mae'r rhaglen ddatblygu hon ar gyfer y rheiny sy'n arweinwyr canol ar hyn o bryd mewn ysgolion arbennig, cynradd ac uwchradd yn y rhanbarth. Mae'n raglen trawsyfnod a fydd yn gwella eich gwybodaeth, meithrin eich hyder a datblygu eich sgiliau arwain a rheoli.

Gweler y [prospectws](#) am ragor o fanylion. Ceir copi o'r ffurflen gais [yma](#).

Rhaglen Datblygu Darpar Benaethiaid [RhDDB]

Mae'r rhaglen ddatblygu hon ar gyfer y sawl sy'n uwch arweinwyr ar hyn o bryd.

Bydd y rhaglen yn mabwysiadu dull trawsyfnod a fydd yn galluogi'r cyfranogwyr i gyd i ddeall, gwerthfawrogi, rhannu a chydweithio gyda chydweithwyr ar draws y rhanbarth.

Cliciwch yma am gopi o'r prospectws. Gweler y [dudalen we](#) am gopi o'r ffurflen gais.

Prosiect Darllen Ailadroddol Gogledd Cymru

Ydych chi am wella hyder a rhuglder darllen eich disgyblion?

Ydych chi am wario eich GDD ar ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth?

Oes gennych chi ddiddordeb mewn bod yn rhan o'r prosiect Darllen Ailadroddol mawr cyntaf yng Nghymru?

Os felly, rydym yn eich gwahodd i ymuno â phrosiect cydweithredol cyffrous...dilynwch y [ddolen hon](#).

Astudiaeth Ddarllen Ar-lein Gogledd Cymru – Prosiect Gweithredu Traws Ranbarthol (NorthWORTS-TRIP) 2018-2019

Ydych chi am wella sgiliau darllen sylfaenol eich disgyblion?

Ydych chi am wario eich GDD ar ymyriad darllen sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sydd wedi'i arfarnu'n drwyadl mewn ysgolion ar hyd a lled gogledd Cymru? Oes gennych chi ddiddordeb mewn gwario llai nag un dyraniad GDD ar raglen ddarllen drwy gymorth cyfrifiadur a allai helpu llawer o ddisgyblion?

Os felly, rydym yn eich gwahodd i ymuno â phrosiect cydweithredol cyffrous...[cliciwch yma](#).

Rhaglen Ar-lein SKILLS

A yw eich ysgol gynradd eisiau gwella ymddygiad disgyblion a'ch perthynas gyda rhieni? Oes gennych ddiddordeb mewn bod yn rhan o ddadansoddiad peilot bach o raglen ar-lein i gynorthwywyr dosbarth 1:1 a rhieni? Os felly, rydym yn eich gwahodd i ymuno â phrosiect cyffroes...

[Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion.

Cynadleddau a Chyfleoedd gan Erail

Cynhadledd gan Brifysgol Bangor: Y Gymraeg mewn Addysg a Dwyeithrwydd ★NEWYDD★

2 DDYDDIAD I'CH DYDDIADUR!

Dau ddigwyddiad ar gyfer Penaethiaid, ac ymarferwyr y Gymraeg [Ysgolion cyfrwng Cymraeg / dwyeithog ac ar gyfer Ysgolion cyfrwng Saesneg].

[Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion.

Holiadur am Ddatblygiad Proffesiynol ar gyfer Athrawon Mathemateg

Er mwyn llywio blaenraglen waith Y Rhwydwaith Cenedlaethol ar gyfer Rhagoriaeth mewn Mathemateg ar ddatblygiad proffesiynol athrawon mathemateg, rydym yn gofyn i athrawon [gwblhau holiadur byr](#).

Cynhadledd Estyn: Gweithredu'r TGAU a Bagloriaeth Cymru Newydd

Digwyddiad ar gyfer pob arweinydd pwnc ar gyfer Saesneg, Mathemateg, Cymraeg (mamiaith) a Bagloriaeth Cymru

[Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion.

Gwybodaeth Amrywiol ac Arolygon

Adroddiad 500 Gair 2018 ★NEWYDD★

Ydych chi eisiau edrych i mewn i feddyliau ein ysgrifenyddyr ifanc 2018? Mae'r adroddiad hwn ar gystadleuaeth 500 Gair yn ein hysbysu am lawer mwy nac beth mae ein dysgwyr ifanc yn ei feddwl. Mae'n le delfrydol i gael syniadau ar gyfer eich llythrennedd y tymor nesaf. Mwynhewch ei ddarllen...mae'n hudol! [Cliciwch yma](#) am gopi.

Y Gymraeg mewn Addysg – Sgiliau Cymraeg y Gweithlu

Cafwyd ymateb cadarnhaol iawn o ran yr ymatebion, gyda **dros 7,000** o unigolion yn cwblhau'r holiadur.

[Cliciwch yma](#) am ragor o wybodaeth.

Cyflwyno Asesiadau Personol

[Cliciwch yma](#) am ddiweddariad gan Lywodraeth Cymru a fydd yn cyflwyno asesiadau personol newydd ar-lein o'r flwyddyn academaidd nesaf (2018/2019).

Cyfrifon Trydar Newydd

Eisiau'r manylion diweddaraf gan y Tîm Cyfnod Sylfaen? Neu beth am Brosiect Rhanbarthol Shirley Clarke? Mae gan ein Tîm Cyfnod Sylfaen gyfrif trydar bellach ar gyfer rhannu newyddion diweddaraf – dilynwch nhw ar [@GSylfaen](#)

Bydd y diweddaraf am Brosiect Rhanbarthol Shirley Clarke yn cael ei rannu drwy gyfrif [@GwEShIRLEYC](#) yn ogystal. Dilynwch nhw!!

Ydych chi'n Dysgu trwy Gyfrwng y Gymraeg neu'n Ddwyeithog?

Mae Laura Jones, un o ddarlithwyr yn yr Ysgol Addysg, Prifysgol Bangor wedi lansio arolwg ar-lein i nodi arfer da a heriau wrth ddarparu mynediad i'r cwricwlwm i ddisgyblion ag AAA sy'n dysgu trwy eu hail iaith.

Mae ymatebion athrawon yn hanfodol wrth helpu i ddatblygu'r dealltwriaeth o arferion cyfredol yn y maes hwn.

Os hoffech chi gwblhau'r arolwg, [cliciwch yma](#).

Safonau Addysgu Proffesiynol

[Cliciwch yma](#) am gopi drafft o'r canllaw i'ch helpu drwy Safonau Addysgu Proffesiynol ar gyfer cynorthwyo addysgu yng Nghymru.

Ymchwil i Leoli a Defnyddio Gweithwyr Cymorth Dysgu (LSWs) yn Ysgolion Cynradd yng Nghymru

YMCHWIL A WNAED GAN BRIFYSGOL METROPOLITAN CAERDYDD AR RAN LLYWODRAETH CYMRU

Mae Llywodraeth Cymru yn dymuno casglu tystiolaeth a dealltwriaeth bellach o ystod y tasgau y gofynnir i weithwyr cymorth yn y dosbarth eu cyflawni yn rhan o'u rôl.

[Cliciwch yma](#) i gymryd rhan.

Swyddi Eraill

Pennaeth – Ysgol Bodhyfryd, Wrecsam ★NEWYDD★

Y mae corff llywodraethol Ysgol Bodhyfryd yn chwilio am Bennaeth i ddechrau ym mis Ionawr 2019, neu ynghynt.

[Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion.

DYDDIAD CAU: HANNER DYDD, DYDD MAWRTH, 11 MEDI 2018

Prif Swyddog Addysg [Pennaeth Addysg] Dros Dro – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

★NEWYDD★

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn recriwtio Prif Swyddog Addysg [Pennaeth Addysg] newydd dros dro i ymuno â'u huwch dîm ar adeg cyffrous o drawsnewid.

[Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion.

DYDDIAD CAU: DYDD MAWRTH, 31 GORFFENNAF 2018

Cofiwch ddilyn [@GwEGogleddCymru](#) ar Twitter



[GwEGogledd.Cymru](#)

Am ragor o wybodaeth, ewch i'n gwefan

Rydym wedi diweddarau ein polisi preifatrwydd i adlewyrchu newidiadau i'r ddeddf gwarchod data. Gallwch weld y polisi [yma](#)
Rydych wedi tanysgrifio i dderbyn bwletin GwE. Fodd bynnag, os nad ydych yn dymuno derbyn y bwletin rhagor gallwch ddatdanysgrifio drwy gysylltu â
bwletin@gwegogledd.cymru yn nodi'r cyfeiriad e-bost sydd wedi'i gofrestru.

